CYFRES C9

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
1 Brenhinoedd
17:1-7

Mae'r stori yma'n sôn am:
Duw yn cosbi brenin drwg

Stori 1 Elias yn ufudd i Dduw

Pan oedd Elias yn byw yn Israel, roedd ganddyn nhw frenin drwg iawn. Ahab oedd ei enw. Roedd ei wraig, Jesebel, yn un ddrwg iawn hefyd.

Ysgrifennwch enw'r brenin. __ h __ b

Ysgrifennwch enw'r frenhines. J __ s __ b __ l

Dewisodd Duw Elias i fod yn broffwyd iddo. Rhoddodd Duw neges i Elias i'w rhoi i'r brenin. Un diwrnod, anfonodd Duw Elias at Ahab i ddweud na fyddai gwlith na glaw yn y wlad am amser hir iawn! Roedd y brenin Ahab wedi gwylltio ac roedd e eisiau lladd Elias ond dywedodd Duw wrth Elias am fynd i guddio. Aeth Elias i fyw ar lan nant o'r enw

Cerith.

Lliwiwch y llythrennau a'r adar.

Roedd Duw'n gofalu am Elias. Bob bore a bob nos, roedd adar mawr du o'r enw cigfrain yn dod â chig a bara iddo. Pan oedd syched arno, roedd yn yfed dŵr o'r nant. Ymhen amser, sychodd y nant. Beth allai Elias ei wneud? Roedd gan Dduw gynllun newydd i ofalu am Elias. Byddai popeth yn iawn os byddai Elias yn gwrando ar Dduw. Rydyn ni i fod i wrando ar Dduw hefyd.

Enw

DARLLENWCH
1 Brenhinoedd
17: 8-16

Mae'r stori yma'n sôn am:
Duw yn gofalu am Elias.

Stori 2 Elias yn trystio Duw

Pan sychodd y nant, anfonodd Duw Elias at wraig weddw. Byddai hi'n gofalu amdano.

Doedd gan y wraig weddw a'i mab ddim llawer o fwyd. Roedd bwyd yn brin ym mhob man achos nad oedd yn bwrw glaw.

Gofynnodd Elias i'r wraig am ddŵr a bara.



Rhowch linell o dan y gair cywir:-

1. Gofynnodd Elias i'r wraig am **gig / ffrwythau / fara**.
2. Gofynnodd am **olew / ddŵr / win** hefyd.

Meddai'r wraig. "Dim ond ychydig bach o flawd sydd gen i ac rwy'n mynd i wneud torth i mi a fy mab."

"Gwna dorth," meddai Elias "a rho hi i mi. Bydd Duw yn gofalu bod gen ti ddigon o flawd ac olew tan iddi fwrw glaw eto."

Roedd hi'n wraig ddoeth ac fe gredodd hi Elias. Mae'r Beibl yn dweud ei bod hi wedi gwneud fel y dywedodd Elias wrthi.

Gwnaeth Duw fel yr oedd wedi'i addo. Bu'r wraig yn gofalu am Elias am amser hir ac roedd ganddi bob amser ddigon o flawd ac olew i wneud bara. Mae'n siwr bod Elias a'r wraig yn rhyfeddu wrth feddwl pa mor dda yw Duw! Gan fod Duw yn dda, dylen ni fod yn ufudd iddo.

Enw

DARLLENWCH
1 Brenhinoedd
18: 1-2 & 16-46

Mae'r stori yma'n sôn am:
Duw'n helpu Elias i ennill

Stori 3 Elias yn gwasanaethu Duw

Doedd dim glaw am dros dair blynedd. Doedd y cnydau ddim yn tyfu ac roedd y glaswellt yn gwywo. Roedd yr anifeiliaid yn marw. Un diwrnod, dywedodd Duw wrth Elias am fynd i weld y Brenin Ahab.

Lliwiwch y llun

Dywedodd Elias wrth y brenin, "Tyrd gyda mi i Fynydd Carmel. Tyrd â phroffwydi Baal gyda ti." (Duw ffug oedd Baal). "Gawn ni gystadleuaeth i weld pwy yw'r Duw iawn."

Ar y mynydd, dyma nhw'n codi dwy allor, un i Baal ac un i'r Arglwydd. Yna, dyma nhw'n rhoi bustach yn aberth ar y ddwy allor. Roedd proffwydi Baal i fod i weddïo ar eu duw nhw a byddai Elias yn gweddïo ar yr Arglwydd i weld pa un fyddai'n anfon tân o'r Nef i losgi'r aberth.

Rhowch gylch o gwmpas y gair CYWIR sydd rhwng y cromfachau :-

1. Rhoddwyd (**oen, gafr, bustach**) ar bob allor.

2. Roedden nhw eisiau gweld ai Baal ynteu'r Arglwydd fyddai'n ateb trwy anfon (**tân, glaw, daeargryn**)

Bu proffwydi Baal yn gweiddi ar Baal am oriau ond chawson nhw ddim ateb. Yna, dyma nhw'n gweiddi'n uwch ac yn neidio o gwmpas yr allor ond ddaeth dim tân. Yna, daeth tro Elias. Gweddïodd yn dawel ac anfonodd yr Arglwydd dân i losgi'r cyfan oedd ar yr allor.

Pan welodd y bobl beth a ddigwyddodd, dyma nhw'n plygu i lawr ac yn dweud

"Yr Arglwydd sydd Dduw"

Lliwiwch y geiriau

Dechreuodd llawer o bobl addoli'r Arglwydd eto a throi eu cefn ar y duwiau ffug. Ar ddiwedd y dydd, dechreuodd fwrw glaw yn drwm. Roedd y sychder wedi dod i ben.

Enw

DARLLENWCH
1 Brenhinoedd
19: 1-16

Mae'r stori yma'n sôn am:
Elias yn ofnus

Stori 4 Elias yn anghofio am Dduw

Roedd y Frenhines Jesebel, gwraig Ahab, yn casáu Elias. Roedd hi eisiau ei ladd!

Roedd ofn ar Elias. Rhedodd i ffwrdd i le unig iawn. Eisteddodd o dan goeden a gofyn i Dduw am gael marw!

Pwy oedd eisiau lladd Elias? J __ __ e b __ __

Roedd Duw yn gwybod bod Elias wedi blino. Roedd angen bwyd a gorffwys arno. Aeth i gysgu a phan ddeffrodd Elias, gwelodd fara a dŵr gerllaw. Ar ôl iddo fwyta ac yfed y rhain, aeth yn ôl i gysgu. Pan ddeffrodd wedyn, cafodd ragor o fwyd a diod. Roedd yn teimlo'n well wedyn ac yn barod i fynd ymlaen â'i daith. Roedd Duw yn gofalu amdano er bod Jesebel eisiau ei ladd.

Wedyn, aeth Elias i orffwys mewn ogof. Pan oedd yno, siaradodd Duw ag ef mewn llais bach, distaw. Dywedodd Duw wrth Elias am fynd i chwilio am ddyn ifanc o'r enw Eliseus a'i eneinio i fod yn broffwyd yn ei le.

Llanwch y bylchau:-

Byddai E _ _ _ _ _ _ yn dod yn broffwyd yn lle E _ _ _ _.

Roedd bywyd Elias bron ar ben. Roedd wedi bod yn was da i Dduw. Helpodd Duw ef i fod yn ffyddlon iddo. Gall Duw ein helpu ni hefyd os gwnawn ni ymddiried ynddo fel y gwnaeth Elias.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120